Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

# Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

## 18 Gorffennaf 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Ôl-ymgynghori |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (RTP) gan gynnwys dogfennau ategol a amlinellir yn yr atodiadau, er mwyn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) eu hadolygu a'u cymeradwyo i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo'r RTP a'r ddogfennaeth ategol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi gan y Gweinidogion ym mis Medi 2025.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn trosglwyddo'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau trafnidiaeth mewn perthynas ag ardal pob un o'i gynghorau cyfansoddol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC). Mae datblygu a gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn swyddogaeth statudol a weithredir gan y CBC drwy ei Gyd-bwyllgor Corfforedig, gyda chefnogaeth y Canllawiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (Fersiwn 2) 2023. Ar ôl i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru yn cael ei fabwysiadu gan y CBC drwy ei broses weithredu i gyflwyno rhaglen fuddsoddi 5 mlynedd.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Un o'r prif resymau pam y ffurfiwyd Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) yw i hyrwyddo cydweithredu rhanbarthol drwy fframwaith cyson a reolir yn ddemocrataidd. Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgorau Corfforedig gydymffurfio â holl ddyletswyddau cyrff cyhoeddus ac mae ganddynt ddyletswyddau statudol penodol gan gynnwys cyflawni swyddogaeth paratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTPs). Ar gyfer gogledd Cymru, mae'n rhaid i'r CBC ddatblygu polisïau trafnidiaeth i weithredu Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, gan ddarparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y 25 mlynedd nesaf. Mae'r gwaith rhanbarthol hwn yn cael ei wneud ar y cyd ar draws y chwe awdurdod lleol sy'n ffurfio Aelodaeth CBC y Gogledd, a chynrychiolwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Thrafnidiaeth Cymru.

4.2. Argymhellodd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, yn ei gyfarfod agoriadol ar 1 Hydref, 2024, bod y CBC yn mabwysiadu datganiad gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, gan gynnwys ei amcanion SMART, a themâu trawsbynciol i'w cynnwys yn y drafft Achos dros Newid a gyflwynwyd, ac i'r drafft gael ei ddiweddaru a'i gyflwyno i'r is-bwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. Hefyd, gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig nodi'r Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid drafft a gyflwynwyd, y mae'n rhaid ei baratoi i gefnogi'r RTP ac argymell unrhyw ystyriaethau ychwanegol y dylid eu cynnwys.

4.3. Ar 16 Rhagfyr 2024, argymhellodd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol bod y CBC yn cymeradwyo'r Achos dros Newid gan gynnwys y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, ac i gefnogi dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.

4.4. Ar 17 Ionawr 2025, cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yr Achos dros Newid, gan gynnwys y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid gan gefnogi dechrau ar yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Mae papurau'r CBC ar gyfer y penderfyniad hwn ar gael yma: Rhaglen Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ddydd Gwener, 17 Ionawr 2025, 1.30pm

4.5. Mae'r holl ddogfennau RTP wedi'u cynhyrchu mewn partneriaeth â'n cynghorwyr technegol ymgynghorol ARUP gydag adborth cydweithredol gan ein rhanddeiliaid allweddol. Cyhoeddwyd y rhain fel rhan o'r broses ymgynghori gyhoeddus a gynhaliwyd o 20 Ionawr i 14 Ebrill, 2025. Cynhaliwyd y broses ymgynghori gyhoeddus 12 wythnos hon yn rhithwir tra oedd hefyd yn cael ei hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy sefydliadau partneriaeth.

4.6. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar yr RTP drafft yn gam allweddol wrth werthuso cyfeiriad polisi strategol a gwerthoedd uchelgeisiol ar yr RTP drafft a'i ddogfennau cysylltiedig, gan gynnwys:

i. Mae'r RTP yn ***Atodiad 1*** yn gosod y weledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth y rhanbarth, ochr yn ochr ag amcanion, polisïau ac ymyraethau ar gyfer gwella'r isadeiledd a'r gwasanaethau trafnidiaeth. Helpodd copi 'Hawdd ei Ddeall gan Anabledd Dysgu Cymru' yn ***Atodiad 8*** a chopïau 'Hawdd ei Ddeall' bawb sydd â diddordeb yn y cynigion i ymgysylltu.

ii. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) drafft yn ***Atodiadau 2-3*** yn gosod y cynlluniau awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r amcanion, y polisïau a'r ymyraethau a nodir yn yr RTP drafft. Mae dogfennau diagramau PDF rhyngweithiol cefnogol ar wahân yn helpu i ddangos y cynlluniau a'u manylion.

iii. Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) yn dangos sut y bydd polisïau'r RTP yn cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth asesiadau effaith sy'n ystyried materion fel yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth. Mae crynodeb nad yw'n dechnegol yn ***Atodiad 4*** yn cefnogi'r IWBA.

iv. Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn ***Atodiad 6*** yn amlinellu sut y bydd yr RTP yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso, gan geisio sicrhau y bydd yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (WTS). Mae'n cynnwys cyfraniad y rhanbarth at dargedau datgarboneiddio

cenedlaethol a newid moddol.

4.7 Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn ***Atodiad 7*** yn nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad a gwblhawyd ar ôl derbyn 1,684 o ymatebion, oedd yn cynnwys 1,421 yn ymwneud ag ymgyrch a gefnogwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn gwrthwynebu Coridor yr A494/A55/Sir y Fflint (y cyfeirir ato yn gyffredin fel y 'Llwybr Coch') mewn perthynas â'r potensial canfyddedig y gallai cynnig blaenorol am gefnffordd gael ei ailystyried fel dyhead o fewn yr RTP. Mae'r gwrthwynebiad yn nodi [gair]:

i. Byddai'r ffordd ddeuol yn dinistrio ardaloedd helaeth o fywyd gwyllt cyfoethog ac unigryw Sir y Fflint, gan gynnwys er enghraifft, coetir hynafol Leadbrook a'r glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau.

ii. Byddai'r briffordd newydd yn creu traffig newydd, a byddai'r cynnydd mewn allyriadau carbon o ganlyniad, gan gynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladu, yn peri niwed difrifol i frwydr Cymru yn erbyn newid hinsawdd.

iii. Nid oes angen y prosiect. Byddai datblygiadau diweddar mewn technoleg traffig SMART, mân waith priffyrdd 'ar-lein' nad ydyw'n cynnwys adeiladu priffyrdd newydd, ynghyd â gwell trafnidiaeth gyhoeddus a llesol yn mynd yn bell iawn tuag at fynd i'r afael ag unrhyw faterion tagfeydd, ar ffracsiwn fechan o gost a chyllideb garbon y Llwybr Coch.

iv. Mae'r gost eisoes wedi mynd allan o reolaeth – amcangyfrifodd diweddariad diwethaf cyllideb y Llywodraeth yn 2019 fod cost y Llwybr Coch yn £300m. Byddai'r gost, pe bai'r Llwybr Coch yn mynd rhagddo nawr, yn £5700m, cynnydd o £207m neu 70%. Mae'n debyg bod hyd yn oed y symiau anferth hyn wedi eu tanamcangyfrif.

v. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i fod i ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'r isadeiledd trafnidiaeth presennol a helpu i ddileu'r cymhelliant dros ddefnyddio ceir, felly mae cynnwys y Llwybr Coch fel dyhead yn mynd yn groes i gylch gorchwyl y cynllun. Felly, os gwelwch yn dda dilëwch y Llwybr Coch o'r rhestr o gynlluniau 'dyheadol' a nodir yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru.

Ochr yn ochr ag ymatebion unigol i'r ymgynghoriad, nodwyd 37 o ymatebion sefydliadol hefyd.

I grynhoi, mae'r Adroddiad Ymgynghori drafft yn amlinellu:

i. Sut ydym yn cyd-fynd â gweithdrefnau statudol;
ii. Ein dull o ymgynghori cyhoeddus gan gynnwys digwyddiadau wyneb-yn-wyneb awdurdodau lleol a chrynodeb o'r drafodaeth;
iii. Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl dadansoddiad o ddemograffeg, ymatebion thematig a data sy'n tynnu sylw at deimlad a phynciau adborth;
iv. Ymateb yr ymgyrch gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru;
v. Sut mae'r holl adborth a dderbyniwyd wedi'i ystyried.

4.8. Mae'r holl adborth wedi'i ystyried yn ofalus, gan lywio'r RTP a'i ddogfennau ategol. Er mwyn helpu i ddangos sut mae adborth wedi'i ystyried, mae pynciau adborth wedi'u grwpio ac

ymatebion wedi'u darparu mewn dull 'You Said, We Did', sydd i'w weld yn ***Atodiad 6*** o'r Adroddiad Ymgynghori. Pan fo'r RTP neu unrhyw un o'i ddogfennau ategol wedi cael eu diwygio i fynd i'r afael ag adborth, esbonnir hyn yn yr ymatebion a ddarperir. Mae Datganiad Ôl-fabwysiadu ar gyfer yr IWBA yn ***Atodiad 5*** wedi'i baratoi ochr yn ochr â'r Adroddiad Ymgynghori hwn ac ar wahân iddo, sy'n esbonio sut mae'r adborth wedi siapio'r IWBA a sut mae'r IWBA wedi llywio'r dogfennau RTP yn unol â hynny (yn unol ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a gweithdrefnau cysylltiedig).

4.9 Ar 30 Mehefin 2025, daeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol at ei gilydd a rhoddwyd cyflwyniad ar yr RTP a dogfennau ategol iddynt. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad ar newidiadau i ddogfennau drafft ar ôl ystyried adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus, a hefyd ein bwriad i wneud diwygiadau pellach a therfynol yn barod i'r CBC ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r addasiadau hyn yn cynnwys:

i. RTDP – Cynllun 105 'Cyflwyno rhwydwaith o wasanaethau Fflecsi gwledig rhanbarthol gydag amlder gwasanaeth bob awr yn ymestyn i mewn i'r nosweithiau sy'n cysylltu aneddiadau gwledig ac sy'n cael eu gweithredu gan fflyd o fysiau a choetsis Fflecsi sy'n gyfforddus ar gyfer teithiau hwy' – rydym wedi diweddaru hwn i adlewyrchu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa, G23 a Fflecsi.

ii. RTDP – 'Refeniw Diogelwch Ffyrdd: Ymyraethau Addysgol' – rydym wedi cyfuno cynlluniau 279 a 284 a'u huno yn un cynllun 'pob awdurdod lleol' i sicrhau bod gan bawb yr hyblygrwydd i gadw'r mentrau Ymyraethau Addysgol Diogelwch Ffyrdd.

iii. RTDP – 'Cynnal a gwella priffyrdd, Wrecsam' – rydym wedi diweddaru cynllun 159 i adlewyrchu cynlluniau ar gyfer treialon cynnal a chadw arloesol newydd. Mae disgrifiad o'r cynllun wedi'i ehangu i esbonio 'Cynnal a gwella priffyrdd: Ystod o gynlluniau sy'n cynnwys gwella capasiti a diogelwch / gwella mannau cul a gwella cydnerthedd y Rhwydwaith Trafnidiaeth, gyda mesurau penodol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i adnewyddu goleuadau stryd, lliniaru perygl llifogydd, dulliau cynnal a chadw gwyrddach a gwelliannau llwybrau teithio llesol. Bydd Wrecsam yn treialu dulliau o ail-wynebu sy'n wyrddach ac yn ein helpu i leihau ein cyfraniad carbon, a gall hyn ein helpu i fynd i'r afael â materion ar ffyrdd gwledig sydd o bosib yn cael eu hanwybyddu ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr angen i flaenoriaethu llwybrau strategol. Os ydynt yn llwyddiannus, gallai'r arloesiadau hyn ddod ag effeithlonrwydd ar draws y rhanbarth, dros a thu hwnt i gyfnod y cynllun.

iv. RTDP – rydym wedi dileu cynllun 153 sy'n ymwneud â Phont Llanerch, nawr bod Cabinet Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud y penderfyniad i dynnu'r prosiect yn ôl.

v. RTP a dogfennau ategol – rydym wedi diwygio Dyhead SRN 3 i ddarllen: Dylid adolygu'r achos dros gyflwyno cynlluniau priffyrdd strategol, yn enwedig lle gall y rhain ddarparu buddion ehangach a gwella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad yw'r cynlluniau blaenorol ar gyfer Gwelliannau Coridor Sir y Fflint A55/A494/A548 yn cael eu bwrw ymlaen ar hyn o bryd yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd ac ar hyn o bryd mae yn y broses o gomisiynu gwaith newydd i ddatblygu Strategaeth Llwybr ar gyfer yr A55/A494 fydd yn tynnu sylw at yr heriau a'r problemau ar hyd y coridor, gydag ymyraethau posib i ymdrin â nhw. Mae hyn yn cynnwys cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ei bod wedi comisiynu astudiaeth (Camau 1 a 2 WelTAG) i ystyried

heriau gweithredol y rhwydwaith, gwytnwch a diogelwch ffyrdd rhwng Cyffordd 14 ac 18 ar yr A55.

vi. Mae'r Adroddiad Ymgynghori – mathau o ymatebion a dderbyniwyd wedi'i gwblhau gyda mân ddiwygiad i'r ddogfen.

Yn ystod y cyfarfod, cafodd yr Aelodau hefyd eu hysbysu bod gohebiaeth gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn **Atodiad 9** ynghylch y grŵp gweithredu lleol Dileu'r Llwybr Coch (Stamp Out The Red Route) wedi'i dderbyn yn gwrthwynebu ystyriaeth yr Is-bwyllgor o'r RTP. Ymdriniwyd â hyn yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor a'i ddilyn gydag ymateb ysgrifenedig yn **Atodiad 10** i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Argymhellodd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol bod y CBC yn cymeradwyo'r RTP a'i ddogfennau ategol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo a'u gyhoeddi gan y Gweinidogion. Mae'r Is-bwyllgor wedi cydnabod a chanmol swyddogion a phartneriaid am yr ymdrech gydweithredol sylweddol oedd ei hangen i gynhyrchu'r dogfennau hyn yn barod i'w cyflwyno.

4.10. Yn dilyn argymhelliad yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, gofynnir i'r Aelodau ystyried yr RTP a'i ddeunydd ategol i gymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan y Gweinidogion. Bydd y cam hwn hefyd yn galluogi'r CBC i gwrdd â dyddiadau cau Llywodraeth Cymru i'w cyflwyno erbyn diwedd Gorffennaf 2025 ac osgoi unrhyw oedi i'r rhaglen Moderneiddio Grantiau a dechrau’r trefniant cyllido newydd o 1 Ebrill, 2026.

4.11 Rhoddwyd ystyriaeth i’r effaith y gall y penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Wrth ddatblygu'r penderfyniad a geisir, rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd llesiant sy'n codi dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yng ngoleuni'r gwaith gwerthuso a gynhaliwyd yn yr arfarniad Llesiant Integredig, mae Swyddogion yn credu bod y penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofynion dyletswydd llesiant. Mae'r arfarniad llesiant integredig yn ymdrin â goblygiadau cydraddoldeb ac yn cefnogi'r penderfyniad, yn ogystal â dangos sut bydd polisïau’r RTP yn cyfrannu at les, gyda chefnogaeth asesiadau effaith sy'n ystyried materion fel yr amgylchedd, iechyd a chydraddoldeb.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid Cyngor Gwynedd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn nodi'r ddyletswydd ar y CBC i ddatblygu polisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd. Wrth weithredu'r swyddogaeth hon, cânt y dasg o ddatblygu a gweithredu polisïau trafnidiaeth ar gyfer eu hardal hwy o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae datblygu a gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn swyddogaeth statudol a weithredir gan y CBC.

ATODIADAU CRAIDD:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Atodiad 2: | Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (Atodiad A heb ei olygu) **(Eithriedig)** |
| Atodiad 3: | Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (Atodiad A wedi'i olygu) |
| Atodiad 4: | Arfarniad Llesiant Integredig, Crynodeb Anhechnegol |
| Atodiad 5: | Arfarniad Llesiant Integredig, Datganiad Ôl-fabwysiadu |
| Atodiad 6: | Cynllun Monitro a Gwerthuso |
| Atodiad 7: | Adroddiad Ymgynghori |
| Atodiad 8: | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol – Hawdd ei Ddeall gan Anabledd Dysgu Cymru |
| Atodiad 9: | Llythyr Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru dyddiedig 27 Mehefin 2025 (Saesneg yn unig) |
| Atodiad 10: | Llythyr CBC y Gogledd i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru dyddiedig 09 Gorffennaf 2025 |

ATODIADAU TECHNEGOL (Wedi'u cynnwys ar gyfer cyfeirio)

| | |
|---|---|
| Atodiad 11: | RTDP Atodiad A [Offeryn Rhyngweithiol] **(Eithriedig)** |
| Atodiad 12: | RTDP Atodiad B1 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif Cyflawn **(Eithriedig)** |
| Atodiad 13: | RTDP Atodiad B2 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif Cyflawni Awdurdodau Lleol **(Eithriedig)** |
| Atodiad 14: | RTDP Atodiad B3 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif Ffynhonnell Ariannu **(Eithriedig)** |
| Atodiad 15: | RTDP Atodiad B4 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif y Cwsmer **(Eithriedig)** |
| Atodiad 16: | Adroddiad Arfarniad Llesiant Integredig |
| Atodiad 17: | Cynllun Monitro a Gwerthuso Atodiad A1 [Offeryn Rhyngweithiol] |

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro.

Mae hon yn garreg filltir allweddol i'r CBC wrth iddo weithredu ei ddyletswyddau statudol. Mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth wedi darparu ei argymhelliad ar gymeradwyo'r RTP i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, dylai'r CJC roi sylw arbennig i ganlyniadau'r broses ymgynghori yn ogystal â'r materion perthnasol eraill y dylid eu hystyried. Mae hwn yn benderfyniad sy'n cael ei gadw i'r CJC ac rwy'n fodlon fod y broses a ddilynwyd yn briodol.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn swyddogaeth statudol graidd i'r CBC. O ganlyniad, mae adnoddau wedi'u cymeradwyo ar gyfer y swyddogaeth hon yng

nghyllideb 2025/26. Cedwir y gyllideb hon dan adolygiad a bydd adroddiad arni i'r CBC yn ystod y flwyddyn. Bydd yr adnoddau y barnwyd eu bod yn ofynnol ar gyfer datblygiad pellach y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu hystyried fel rhan o'r cylch gyllidebu ar gyfer y blynyddoedd i ddod."